

COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL
Y CABINET - DYDD GWENER, 16 EBRILL 2021
BWRDD ADFYWIO A DATBLYGU CYNALIADWY'R CABINET

Aelodau Bwrdd y Cabinet:

Cynghorwyr: A.Wingrave a/ac M.Harvey

Swyddogion sy'n Bresennol:

S.Brennan, N.L.Thomas, N.Headon a/ac C.Plowman

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd A Wingrave yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd M Harvey i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwyo cofnodion cyfarfod 5 Chwefror 2021.

5. **POLISI DATGUDDIO METEL**

Penderfyniadau:

Ar ôl rhoi sylw dyledus i gam cyntaf yr Asesiad Effaith Integredig, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd,

1. nid yw'r Cyngor yn cefnogi gweithgareddau datguddio metel ar ei dir;
2. Bod y Polisi Datguddio Metel, fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd, mewn perthynas â gweithgareddau datguddio metel yn cael ei fabwysiadu

Rhesymau dros y Penderfyniadau:

Oherwydd y posibilrwydd o ddifrod i eiddo'r cyngor, colli gwybodaeth hanesyddol a difrod i archaeoleg, ynghyd â'r baich gweinyddu, ni ddylid cefnogi datguddio metel ar dir y cyngor.

Rhoi Penderfyniadau ar Waith:

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

6. **GRANT EIDDO MASNACHOL: 44 GERDDI VICTORIA, CASTELL-NEDD SA11 3BH**

Penderfyniad:

Ar ôl rhoi sylw dyledus i gam cyntaf yr Asesiad Effaith Integredig, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd

O dan y cynllun Grant Eiddo Masnachol, cymeradwyir y gwaith gwella allanol i'r eiddo masnachol yn 44 Gerddi Victoria, Castell-nedd SA11 3BH, fel y manylir yn yr adroddiad a gylchredwyd.

Rheswm dros y penderfyniad:

Rhoi darpariaethau'r cynllun Grant Eiddo Masnachol ar waith yn unol â'r meini prawf a thelerau gweinyddu'r grant, er mwyn cyfrannu at adfywio canol tref Castell-nedd.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

7. **BLAENRAGLEN WAITH 2021/2022**

Penderfyniad:

Nodi'r Blaenraglen Waith.

CADEIRYDD